**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/VG/2058/19

Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cadeirydd
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

16 Hydref 2019

Annwyl Gadeirydd,

Yn sgil eich diddordeb yn yr ymgynghoriad a datblygiad Pwysau Iach: Cymru Iach, roeddwn am roi gwybod i chi y bydd y strategaeth derfynol yn cael ei lansio ar 17 Hydref 2019.

Mae Pwysau Iach: Cymru Iach, sef ein strategaeth hirdymor i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru yn gasgliad o safbwyntiau ein rhanddeiliaid, tystiolaeth ac ymchwil ryngwladol. Mae'r Strategaeth yn gynllun 10 mlynedd i leihau ac atal gordewdra ar gyfer pobl Cymru. Er mai fi yw'r Gweinidog sy'n arwain, mae'r cynllun hirdymor hwn yn mabwysiadu dull trawslywodraethol a thraws-sector o fynd i'r afael â gordewdra.

Mae gordewdra yn fater cymhleth, ac ni all y Llywodraeth na'r Gwasanaeth Iechyd ei ddatrys ar eu pennau eu hunain; mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu mai gweithio mewn partneriaeth ar draws systemau cyfan yw'r unig ffordd o sicrhau newid cadarnhaol. Yn unol â neges Cymru Iachach, dyma'r tro cyntaf y mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydlynol o fynd i'r afael â gordewdra, ac mae'r amrywiaeth o gynigion yn dangos sut y gellid addasu rhaglenni a dulliau presennol, gan atgyfnerthu trefn lywodraethol ac arweinyddiaeth.

Mae pedair thema'r Strategaeth yn dangos y dull system gyfan y bydd ei hangen er mwyn mynd i'r afael â gordewdra, gan gydnabod bod yr amgylchedd ffisegol a bwyd yn dylanwadu ar ein dewisiadau. Maent yn cynnwys ystyried sut y gellir dod ag ymyriadau mewn meysydd fel trafnidiaeth, cynllunio, y blynyddoedd cynnar, cymunedau a gwasanaethau iechyd ynghyd i ddatblygu dull cydlynol.

Bydd 5 cynllun cyflawni dwy flynedd o hyd yn cyd-redeg ag oes y strategaeth. Bydd y cynllun cyflawni cyntaf ar gyfer 2020-2022 yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2020, ac yn rhoi manylion yr union gamau gweithredu a gynigir er mwyn gweld newidiadau mewn ymddygiadau ac arferion y boblogaeth, sy'n cael eu hannog a'u hyrwyddo gan ein lleoliadau a'n hamgylchedd, a thrwy arweinyddiaeth leol a chenedlaethol. Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn dechrau datblygu polisi a deddfwriaeth, a byddaf yn cyflwyno cyllid newydd i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

helpu i gyflawni ein hamcanion. Bydd hyn yn ein galluogi ni a'n partneriaid i ganolbwyntio'n fwy ar ataliaeth ac ymyrraeth gynnar drwy'r holl systemau fel rhan o'n huchelgais i adeiladu Cymru iachach. Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau ein bod yn gallu denu cymaint o gyllid ychwanegol â phosibl a chyfleoedd i ysgogi newid ymhlith ein partneriaid, i weld newid yn y ffordd rydym yn defnyddio cyllid i sicrhau ataliaeth.

Mae cefnogaeth gref i'r cynigion rydym wedi'u hamlinellu yn y strategaeth, ynghyd ag egni a chefnogaeth o fewn ein cymunedau tuag at newid cadarnhaol mewn ffordd o fyw. Rydw i am sicrhau bod ein strategaeth yn datgloi'r potensial hwn. Rwy'n ddiolchgar iawn am y gefnogaeth trawsbleidiol a'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd y mater hwn. Rydw i'n bwriadu gwneud datganiad pellach ar y Strategaeth yn y siambr yr wythnos nesaf.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services